Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 351 (Cymru) – 30 Hydref 2023

Deddf Etholiadau: ceisiadau ar-lein am bleidlais absennol a newidiadau i bleidleisiau drwy'r post a phleidleisiau drwy ddirprwy

Daw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy, ac ati) (Diwygiedig) 2023 i rym ar 31 Hydref 2023. Mae'r offeryn statudol hwn yn dod â newidiadau i reolau pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy i rym ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ac yn cyflwyno'r gallu i wneud cais ar-lein am rai mathau o bleidleisiau absennol.

Ffurflenni

Rydym bellach wedi cyhoeddi ffurflenni cais wedi'u diweddaru am bleidlais drwy'r post a thrwy ddirprwy ar gyfer pleidleiswyr i adlewyrchu'r rheoliadau newydd a gofynion pleidlais absennol.

Gellir cyrchu'r ffurflenni cais wedi'u diweddaru trwy fynd i Ymgeisio i bleidleisio drwy ddirprwy | Comisiwn Etholiadol a Gwneud Cais i bleidleisio drwy'r post | Comisiwn Etholiadol o 31 Hydref ymlaen. Bydd y set bresennol o ffurflenni yn cael eu tynnu oddi ar y wefan erbyn yr un dyddiad.

Sylwch na fydd unrhyw geisiadau am bleidlais absennol yn yr hen fformat a ddychwelir atoch ar ôl 30 Hydref 2023 ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Bydd angen gwybodaeth bellach ar y ceisiadau hyn er mwyn gallu dilysu hunaniaeth yr etholwr, neu byddai angen cyfeirio'r ymgeisydd i wneud cais newydd ar-lein neu ar ffurflen newydd.

Canllawiau

Cyhoeddwyd ein canllawiau pleidleisio absennol wedi'u diweddaru ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddechrau mis Medi. Heddiw rydym yn cyhoeddi rhai canllawiau ychwanegol i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i reoli ceisiadau am bleidlais bost sy'n adlewyrchu'r trefniadau gwahanol a fydd yn eu lle nawr ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Deddf Etholiadau: ceisiadau ar-lein am bleidlais absennol a newidiadau i bleidleisiau drwy'r post a phleidleisiau drwy ddirprwy

Gwybodaeth am ganllawiau a ffurflenni cais y Comisiwn a dolenni iddynt i gefnogi gweithrediad y newidiadau a ddaw i rym ar 31 Hydref.

Newidiadau i ffiniau Senedd y DU

Gwybodaeth am amseriad disgwyliedig y ddeddfwriaeth i ddeddfu ffiniau etholaethau newydd Senedd y DU.

Deisebau adalw: adroddiad ar ddeiseb adalw 2023 yn Rutherglen a Gorllewin Hamilton

Gwybodaeth am adroddiad y Comisiwn a dolen iddo.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio

Mae ein canllawiau ar ystyriaethau allweddol ar gyfer gweithredu Cam 2 o Ddeddf Etholiadau 2022 hefyd ar gael i gefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ymgorffori'r prosesau newydd yn eu swyddogaethau etholiadau a chofrestru.

Bydd fersiwn flaenorol y canllawiau am bleidleisio absennol ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n ymdrin â rheoli ceisiadau am bleidlais absennol cyn cychwyn y rheolau newydd yn parhau i fod ar gael ar ein gwefan hyd nes 30 Tachwedd. Mae hyn i gefnogi prosesu unrhyw geisiadau a allai fod wedi dod i law hyd at 31 Hydref.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â ni drwy e-bostio infowales@electoralcommission.org.uk.

Newidiadau i ffiniau Senedd y DU

Fel y nodir ym mwletin newid busnes Rhaglen Uniondeb Etholiadol yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar 24 Hydref, mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn y broses o wneud y ddeddfwriaeth a fydd yn deddfu ffiniau etholaethau newydd Senedd y DU. Mae dyddiad gwneud y ddeddfwriaeth yn dibynnu ar ddyddiadau eistedd y Cyfrin Gyngor. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y Gorchymyn yn cael ei wneud ym mis Tachwedd ac y daw i rym 2 wythnos ar ôl hyn. Mae hyn yn debygol o fod tua diwedd mis Tachwedd.

Unwaith y bydd y Gorchymyn wedi'i wneud, bydd y ffiniau newydd wedyn yn dod i rym yn etholiad cyffredinol Senedd y DU nesaf.

Rydym wedi diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'r diweddariad hwn ar amseriad disgwyliedig y ddeddfwriaeth.

Deisebau adalw Adroddiad ar ddeiseb adalw 2023 yn Rutherglen a Gorllewin Hamilton

Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad statudol ar y ddeiseb i alw'r AS dros etholaeth Senedd y DU, Rutherglen a Gorllewin Hamilton, yn ôl.

Hon oedd y ddeiseb adalw gyntaf i gael ei chynnal yn yr Alban a hefyd y gyntaf lle'r oedd yn ofynnol i bobl ddangos ID ffotograffig wrth lofnodi'r ddeiseb yn bersonol.

Gwelsom fod y ddeiseb yn cael ei chynnal yn dda, a chyflawnodd y Swyddog Deisebau eu dyletswyddau fel y nodir yn Neddf Adalw ASau 2015. Nid oedd unrhyw broblemau sylweddol a effeithiodd ar bobl a oedd yn gymwys i arwyddo neu a oedd yn dymuno ymgyrchu.

Fodd bynnag, yn unol â'n hadroddiadau ar ddeisebau adalw 2019 yn Peterborough a Brycheiniog a Sir Faesyfed, a deiseb adalw 2018 yng Ngogledd Antrim, rydym unwaith eto wedi nodi heriau sy'n deillio o gymhwyso rheolau etholiad i broses deiseb adalw. Mae'r rhain yn cynnwys yr anawsterau o ran sicrhau lleoliadau llofnodi hygyrch am gyfnod galw'n ôl o chwe wythnos a'r diffyg eglurder yn y ddeddfwriaeth ynghylch y dyddiad cau ar gyfer derbyn pleidleisiau post a'r gofynion cyfrinachedd yn ystod y broses galw'n ôl.

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Rydym yn parhau i argymell bod Llywodraeth y DU yn adolygu'r polisi a'r ddeddfwriaeth i wella'r broses ar gyfer unrhyw ddeisebau galw'n ôl yn y dyfodol.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2023